

## Cofnodion Cyfarfod 2ail Chwefror 2021

**Presennol :-** Y Cadeirydd **Gareth Griffiths** a'r Cyngorwyr, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Jane Pierce, R. Hefin Williams. Rhian Evans-Hill, Richard Llwyd Jones. a Ceri Jones Croesawyd y Cyngorydd Elwyn Jones

### **Ymddiheuriadau.**

Idris Thomas, Emma Chappella, Aled Green a Lowri Hughes

### **Croeso a Gweddi**

Rhoddwyd gair o groeso i bawb gan Y Cadeirydd a gair o weddi gan Richard LL. Jones.

Rydym yn gyrru ein cofion at Aled Green sydd ddim wedi bod yn dda.

Cyfethol - Wedi cryn amser a hysbysebu, balchder oedd cael derbyn Ceri Jones yn aelod llawn o'r Cyngor, a bydd yn eistedd ar ran pentref Brynrefail.

### **Datgan buddiant**

Dim

## Cofnodion Cyfarfod 5ed Ionawr 2021

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

R. Hefin Williams (1)

Richard Ll Jones (2)

### **Materion o'r cofnodion**

**Canllaw ger Beran** - Canol mis diwethaf gyrrwyd llythyr i adran priffyrdd ac adran llwybrau, yn nodi fod y llwybr sydd yn dod allan ger garej Beran o Caermynydd angen canllaw ac efallai barrier gan ei fod yn dod allan ar ochor lôn hynod o brysur. Derbyniwyd ymateb bod Cyngor Gwynedd yn bwriadu ymweld â'r llwybr, ynghyd a gwneud arolwg ar y tarmac ar ben y llwybr.

Lonydd, llwybrau a Thar mhac - Derbyniwyd llythyr yn nodi fod Gwaelod Nant y Garth yn mynd i gael ei tharmac ar y 9fed o Chwefror. Yna yn ystod y mis mae arolwg wedi cael ei wneud o'r lonydd a'r llwybrau, ac y byddent yn cael eu rhoi ar y cynllun yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd yr ardal o gwmpas Spar yn Neiniolen a'r lôn gwaelod ger Maes Gwylfa yn cael sylw yn ystod y misoedd nesaf.

**Biniau Halen** - Mae'r biniau Halen oed ar archeb bellach wedi eu gosod ar wahân i 1 ger Gwenoldy a Chaerau ym Mhenisa'r-waun. Y clerc i gysylltu i atgoffa. Cafwyd cais yn ystod y mis am focs halen ger Stryd Tai Cae Rhos, Seion. Wedi edrych a siarad cyd preswylwyr yno, nid oes lle i osod b os gan fod y ffordd yn gul ynghyd a chroesffordd. Felly, penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir symid yr un sydd hanner ffordd lawr yr allt i ben yr allt, sydd yn gwneud mwy o synnwyr, ac fel bod y boc hanner ffordd rhwng y tai

**Tyn lliidiart I Rallt Pentir** - Gyrrwyd cais am arwyddion 'Anaddas i Gerbydau' gael eu

gosod yma gan fod fan Amazon wedi mynd yn sownd ar y ffordd, a bu rhaid cael tractor i'w dynnu allan. Hyn yn digwydd yn aml, mi wŷr pobl leol, ond gyrwyr o'r cyfandir yn dilyn google maps oedd hwn.

**Marchlyn** - Derbyniwyd dau ymateb, un gan Gyngor Gwynedd, a'r llall gan yr OPCC. Y ddau llythyr yn nodi mai cyfrifoldeb Heddlu Gogledd Cymru yw hyn.

### **Gohebiaethau a Materion Eraill**

**Ceisiadau Cymorth Ariannol Hwyr** - Derbyniwyd 2 gais hwyr, un gan Gynllun Efe a'r llall gan CFFI Eryri. Penderfynwyd fod amser cyhyd wedi mynd ers rhannu rhoddion, ac wedi rhoi digon o rybudd i bawb, ac wedi rhoi 2 fis ychwanegol oherwydd sefyllfa eleni. Rhaid nodi nac ond i fudiadau lleol i'r plwyf mae'r Cyngor yn cyfrannu, ac felly ni fuasai'r mudiad CFFI Eryri yn disgyn o dan y canllawiau hyn. Rydym yn cefnogi Clwb Lleol ym Methel.

**Y Farchnad dai gwyliau** - Derbyniwyd llythyr ynglŷn â'r cynnydd sydd yn yr ardal yma ac yn debygol o fod yn y dyfodol. Nodwyd tri argymhelliad. Penderfynwyd cefnogi'r argymhelliion a gyrru llythyr at gabinet Cyngor Gwynedd. Yn ychwanegol tynnu sylw at sawl 'loophole' yn y system bresennol sydd yn fantais i berchnogion tai haf. Mae'n rhaid edrych ar y sefyllfa hynny gyntaf.

**Baw Ci** - Bu sylw yn ddiweddar ar wefannau cymdeithasol ynglŷn â baw ci yn Neiniolen. Mae'r Cyngor Cymuned wedi swnian ers blynyddoedd am fwy o finiau o gwmpas yr ardal sydd yn boblogaidd i bobl gerdded eu cŵn. Nid yn unig Deiniolen sydd efo'r broblem, ond pob pentref o fewn y plwyf a thu hwnt. Y gwirionedd yw, mae yn gyfrifoldeb ar bob perchennog â chi i godi a rhoi'r baw mewn bin, foed hynny adref neu ar lwybr cerdded. Dim ots faint o finiau a roddir o gwmpas tan fydd perchnogion yn cymryd y camau priodol yma baw ci fydd yna. Mae yna finiau mewn llefydd ac o fewn canllath i'r bin, mae yna faw ci. Mae gan Gyngor Gwynedd arwyddion llachar Newydd fydd yn dod allan yn fuan. Y cais ydi Plis codwch faw eich ci a'i waredu mewn bin.

### **Ceisiadau Cynllunio**

#### **C21/0012/18/DT - Bwthyn Lôn Plas, Rhiwlas**

Cais ar gyfer trosi adeilad allanol presennol i greu anecs ategol i'r eiddo

#### **Gwrthwynebu Gor-ddatblygiad**

#### **C20/1097/18/LL - Tyddyn Oer, Bethel**

Dymchwel y tŷ presennol a chodi tŷ Newydd yn ei le. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C21/0010/18/DT - 3 Penrhos, Bethel**

Estyniad un llawr yn gefn yr eiddo. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C21/0022/18/LL - Chwarel Dinorwig**

Cais i godi 2 arwydd/ fwrdd gwybodaeth - **Cefnogol**

#### **C17/0846/18/LL - Tir yn Fro Rhiwen, Rhiwlas**

Datblygiad preswyl o 4 tŷ fforddiadwy ynghyd a mynedfeydd cysylltiedig â pharcio.

**Dim sylwadau pellach i'r hyn a wnaethpwyd yn wreiddiol, a dal yn Gwrthwynebu**

## **Llwybrau**

### **Llwybrau gyda diffygion wedi tynnu i sylw Cyngor Gwynedd yn disgwyl adroddiad yn ôl**

Giât Mochyn, Carreg y Gath

Llwybr rhwng Tŷ Mawr a Hafod y Fraich, Deiniolen

Cae Goronwy

Llwybr 16 Rhiw Goch, Clwt Bont I Frynrefail

Tros y Waun I Dros y Waun Fach rhif 61, 61A, 63 a 64

Llwybr I Gegin Arthur

Llwybr Sinc - Tarmac yn waelod

Dal heb gael ymateb am y llwybrau yma o'r adran yng Nghyngor Gwynedd.

Penderfynwyd os na fydd ymateb, ein bod yn gwahodd aelodau o'r adran i ddod i drafod ein llwybrau cyhoeddus y mis nesaf.

## **Adborth Cyfarfod Meysydd Chwarae**

Yn dilyn cyfarfod o'r is-bwyllgor, a hynny heb ddigwydd yn ystod y pan demig.

Trafodwyd lle yr oeddem wedi cyrraedd a bod y Cyngor Sir yn disgwyl am ateb. Yn bendant mae'r gost o gymryd yr 8 Cae Chwarae drosodd yn mynd i gael sawl effaith ar Y cyngor Cymuned, ac nid ydym yn hollol hyderus fod hyn yn benderfyniad gall ei wneud heb ymchwil trwyadl. Penderfynwyd mai'r peth gorau i wneud byddai cysylltu â chynghorau cymunedol cyfagos i weld os maen nhw wedi cymryd caeau chwarae drosodd gan Y Cyngor Sir, a beth maent wedi canfod yn broblemau a chostau ayyb. Y broblem fawr sydd gennym yw bod yna 8 Maes Chwarae yn ein plwyf.

## **Hysbysfyrdau**

Y Clerc I chwilio am brisiau am hysbysfyrdau erbyn y cyfarfod nesaf.

Posib lleoliadau:

**Penisa'r-waun** - Yr Ysgol, ond angen ei adnewyddu.

**Deiniolen** - Tu allan i'r Ysgol

**Rhiwlas** - Wrth ymyl y ciosg Bro Rhiwen

## **O gwmpas y Bwrdd**

Llyfrgell Genedlaethol - Gyrru llythyr I Siân Gwenllïan I ddangos ein cefnogaeth am grant i'r Llyfrgell Genedlaethol.

Lôn Perthi - Run problem efo dŵr. Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r broblem ac yn ceisio lleihau.

Lôn o Dŷ Mawr I Fethel - Pyllau mawr yn y pantiau ar y briffordd yn dilyn glaw trwm. Angen cysylltu â Chyngor Gwynedd I ollwng i'r caeau.

## **Cadarnhau Taliadau:**

**536 - £40.00**

**537 - £14.40**